Senedd Cymru | Welsh Parliament
Ymchwil y Senedd | Senedd Research

# Amseroedd aros y GIG – Adroddiad monitro tymhorol

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 15 Chwefror 2023
Health and Social Care Committee | 15 February 2023

**Cyfeirnod:** RS23/5035-1

## Cyflwyniad

Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru.

Mae Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd, wedi dweud "fe fydd hi'n cymryd tymor Senedd llawn a llawer o waith caled i adfer wedi effaith y pandemig", a nododd, "honno yw fy mlaenoriaeth i erbyn hyn a blaenoriaeth y gwasanaeth iechyd".

Mae'r Gweinidog wedi nodi ei hymrwymiad i leihau rhestrau aros drwy **bum uchelgais allweddol**. Mae'r papur hwn yn edrych ar y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru tuag at gyrraedd yr uchelgeisiau hyn ac yn edrych yn fanylach ar yr arbenigeddau hynny ble y mae pobl yn aros am fwy na blwyddyn neu ddwy flynedd.

**Cyhoeddir data amseroedd aros yn fisol ar wefan** StatsCymru gyda deufis o oedi. Felly, data mis Gorffennaf 2022 yw'r diweddaraf sydd ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

**D.S** Ers 2009, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi data misol ar **amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth** yn y GIG, sy'n mesur cyfanswm yr amser aros o'r adeg y bydd meddyg teulu yn atgyfeirio claf hyd at adeg y driniaeth, a hon yw'r brif ffynhonnell wybodaeth am amseroedd aros y GIG bellach. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau hyn yn cynnwys rhai arbenigeddau. Cyhoeddir y data amseroedd aros ar gyfer y rhain ar wahân ar wefan StatsCymru, gan gynnwys ar gyfer gwasanaethau

ysbytai iechyd meddwl, gofal lliniarol a deintyddiaeth cleifion mewnol/gofal dydd. Mae cardioleg hefyd yn cael ei fesur ar wahân gan ddefnyddio methodoleg wahanol.

# 1. Llwybrau cleifion yn gyffredinol

## Llwybrau cleifion sydd wedi eu cau

Mae GIG Cymru yn gweld nifer sylweddol o gleifion. Nifer y llwybrau cleifion a oedd wedi eu cau ym mis Gorffennaf 2022 oedd ychydig dros 111,600, sef cyfartaledd o 5,073 o lwybrau cleifion a gafodd eu cau fesul diwrnod gwaith. Mae hyn yn cyfeirio at nifer y cleifion sy'n cael eu tynnu oddi ar restr aros y GIG. Mae hyn yn digwydd pan fydd claf yn cwblhau llwybr gofal – fel arfer pan fo triniaeth ddiffiniol yn dechrau, pan fo'r claf yn gwrthod triniaeth neu os bydd penderfyniad clinigol nad oes angen triniaeth.


Roedd nifer y llwybrau cleifion a oedd wedi eu cau ym mis Tachwedd 2022 (111,600) yn uwch na'r mis blaenorol (106,641.)

## Llwybrau cleifion sydd ar agor

Mae cyfanswm nifer y llwybrau cleifion sy’n aros yng Nghymru wedi cynyddu o 463,402 ar ddechrau’r pandemig (Chwefror 2020) i 701,411 ym mis Mawrth 2022. Ar ddiwedd mis Gorffennaf 2022, y ffigur hwnnw oedd 748,271.

Mae Ffigur 1 isod yn dangos y data ynghylch llwybrau cleifion sydd ar agor. Mae'n dangos bod nifer y llwybrau cleifion wedi cynyddu ers y pandemig COVID-19. Er bod ychydig o ostyngiad o ran nifer y llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth ym mis Tachwedd 2022, dyma'r nifer uchaf erioed namyn pedwar, ac mae’r ffigur 61.5 y cant yn uwch na mis Chwefror 2020.

Ffigur 1. Nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros i ddechrau triniaeth rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Tachwedd 2022




Ffynhonnell: StatsCymru Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl misoedd, wythnosau wedi'u grwpio a cham y llwybr


D.S. Mae nifer y llwybrau cleifion yn wahanol i nifer y cleifion unigol am fod gan rai pobl sawl llwybr ar agor. Yn ôl Llywodraeth Cymru, ym mis Tachwedd 2022, pan roedd tua 748,271 o lwybrau cleifion ar agor, roedd tua 586,000 o gleifion unigol ar restrau aros am driniaethau yng Nghymru.

# 2. Cynnydd yn erbyn y pum targed newydd

Mae'r graffiau a'r dadansoddiad isod yn dangos cynnydd yn erbyn pum targed newydd Llywodraeth Cymru a sefydlwyd yn y cynllun i adfer gofal a gynlluniwyd.

**Targed 1 yn y cynllun adfer: Erbyn diwedd 2022, ni fydd unrhyw glaf yn aros am fwy na blwyddyn am ei apwyntiad** cyntaf fel **claf allanol**

Ffigur 2: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am fwy na 53 wythnos am eu hapwyntiad cyntaf fel cleifion allanol




Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl mis, wythnosau wedi'u grwpio a cham y llwybr


Ym mis Tachwedd 2022, roedd 85,301 o lwybrau cleifion a oedd yn aros am fwy na 53 wythnos (mwy na blwyddyn) am eu hapwyntiad cyntaf fel cleifion allanol. Bydd Llywodraeth Cymru **wedi methu â chyflawni ei tharged adfer cyntaf**, sef sicrhau na fydd unrhyw glaf yn aros am fwy na blwyddyn am ei apwyntiad cyntaf fel claf allanol erbyn diwedd 2022. Caiff data perfformiad Rhagfyr 2022 eu cyhoeddi ar 23 Chwefror 2023.

Er nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei tharged adfer cyntaf, gwelwyd **gostyngiad sylweddol o 10.3 y cant** o ran nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am fwy na 53 wythnos am eu hapwyntiad cyntaf fel cleifion allanol, o'i gymharu â'r mis blaenorol (pan roedd 95,074 o lwybrau cleifion yn aros). Nid yw'r nifer wedi bod yn is na 85,000 ers mis Ionawr 2021.

Yn ystod y pandemig, roedd cynnydd aruthrol yn nifer y cleifion sy'n aros am fwy na blwyddyn am eu hapwyntiad cyntaf fel cleifion allanol. Yn ôl Llywodraeth Cymru, **gwnaed 4,060 o atgyfeiriadau y dydd** ar gyfartaledd am apwyntiad **cyntaf fel claf allanol** ym mis Tachwedd 2022. Mae hyn yn gynnydd o 4.3 y cant (166 yn fwy o atgyfeiriadau y dydd ar gyfartaledd) o'i gymharu â mis Hydref 2022 a **dyma'r nifer uchaf a gofnodwyd erioed**.

Bydd Llywodraeth Cymru, heb os, yn tynnu sylw at y **galw parhaus** (h.y. lefel uchel o atgyfeiriadau) ac yn dweud ei fod yn ffactor wrth fethu'r targed adfer. Mae hefyd yn aneglur, ar hyn o bryd, beth fydd **effaith pwysau'r gaeaf a streicio** ar weithgarwch y GIG tan y bydd ffigyrau mis Rhagfyr 2022 ar gael.


Ffigur 3: Cyfanswm yr atgyfeiriadau




Ffynhonnell: StatsCymru, Atgyfeiriadau misol yn ôl bwrdd iechyd lleol (ardal y darparwr)

**Targed 2 yn y cynllun adfer: Erbyn mis Mawrth 2023, cael gwared ar restrau aros o fwy na dwy flynedd yn y rhan fwyaf o arbenigeddau**

Ffigur 4: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am fwy na 105 wythnos i ddechrau triniaeth ac amcanestyniad yn seiliedig ar gyfnodau amser gwahanol





Ffynhonnell: StatsCymru, Cynllun adfer COVID-19, uchelgeisiau o ran amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth

Ym mis Tachwedd 2022, roedd 49,594 o lwybrau cleifion yn aros am fwy na 105 wythnos (mwy na dwy flynedd) i ddechrau triniaeth ar draws pob arbenigedd. Mae nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am fwy na 105 wythnos **wedi gostwng ers mis Mawrth 2022**.

Mae'r data ar gyfer mis Tachwedd 2022 yn dangos y gwelwyd **gostyngiad am wyth mis yn olynol** yn dilyn cynnydd cyson dros y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae amcanestyniad sy'n defnyddio data o fis Mawrth i fis Tachwedd yn dangos, ar y lefel bresennol o gynnydd (h.y. pe bai'r cynnydd yn parhau ar y lefel a welwyd ers mis Mawrth), **na fydd y targed adfer yn cael ei gyflawni tan ganol 2024**. Roedd cwymp mwy sydyn yn nifer y llwybrau cleifion rhwng mis Hydref a mis Thachwedd 2022. Pe bai'r lefel hon o gynnydd yn parhau, byddai modd cyflawni'r targed erbyn ail hanner 2023.

Er mwyn cyflawni'r targed adfer erbyn mis Mawrth 2023, byddai angen gwneud cynnydd yn gyflymach. Ar y cyflymder presennol, nid yw'n debyg y bydd modd cyflawni'r targed adfer hwn ar gyfer pob arbenigedd.

### Ffigur 5: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am fwy na 105 wythnos i ddechrau triniaeth, yn ôl gweithrediad y driniaeth




Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl misoedd, wythnosau wedi'u grwpio a gweithrediad y driniaeth, Ionawr 2021 ymlaen

Yn ôl data mis Tachwedd, roedd 49,594 o lwybrau cleifion yn aros am fwy na 105 wythnos (mwy na dwy flynedd). Roedd tua 30 y cant o'r holl lwybrau cleifion a oedd yn aros am fwy na 105 wythnos i ddechrau triniaeth yn aros am driniaethau trawma ac orthopedig.

Ymhlith yr arbenigeddau eraill lle y mae niferoedd uchel yn aros am driniaeth am fwy na 105 wythnos, mae **llawdriniaeth gyffredinol** (7,303 o lwybrau cleifion), **triniaethau ar y glust, y trwyn a'r gwddf** (7,106) ac **offthalmoleg** (4,750). Er bod nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am driniaeth yn parhau i fod yn uchel yn yr arbenigeddau hyn, mae cynnydd yn cael ei wneud, ac mae'r niferoedd cyffredinol o bobl sy'n aros am driniaeth yn gostwng.


Mae deg arbenigedd lle cynnyddodd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros am fwy na 105 wythnos i ddechrau triniaeth ym mis Tachwedd 2022 (o'i gymharu â mis Gorffennaf 2022). Mae'r arbenigeddau hyn yn cynnwys **imiwnoleg glinigol ac**

**alergedd** (471), **rheoli poen**(425) a **meddygaeth anadlol** (225). Gwelwyd cynnydd bychan ym maes wroleg (4,597) ac anaestheteg (955).

## Golwg fanwl ar drawma ac orthopedeg

Ym mis Tachwedd 2022, roedd **14,639 o lwybrau cleifion** yn aros am fwy na 105 wythnos am driniaethau trawma ac orthopedig. Er bod y lefel yn parhau'n uchel, mae'r niferoedd sy'n aros i ddechrau triniaeth wedi **wedi gostwng am wyth mis yn olynol**, o uchafswm o 20,445 ym mis Mawrth 2022 i 14,639 ym mis Tachwedd 2022 (gostyngiad o 28.4 y cant). Mae gweithgarwch wedi cynyddu ond nid yw'n glir ar hyn o bryd a yw byrddau iechyd wedi llwyddo **i gynnal y capasiti orthopedig dewisol dros fisoedd y gaeaf**.

Ffigur 6: Nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros am fwy na 105 wythnos i ddechrau triniaeth ym maes trawma ac orthopedeg ac amcanestyniad yn seiliedig ar y data ar gyfer mis Mawrth i fis Tachwedd 2022





Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl misoedd, wythnosau wedi'u grwpio a gweithrediad y driniaeth, Ionawr 2021 ymlaen

Cynhaliwyd uwchgynhadledd orthopedig Gweinidogol ym mis Awst 2022.

Targed 3 yn y cynllun adfer: Erbyn Gwanwyn 2025, cael gwared ar restrau aros o fwy na blwyddyn yn y rhan fwyaf o arbenigeddau

Ffigur 7: Nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros am fwy na 53 wythnos i ddechrau triniaeth ac amcanestyniad yn seiliedig ar y data ar gyfer y cyfnod rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2022





Ffynhonnell: StatsCymru, **Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl misoedd, wythnosau wedi'u grwpio a gweithrediad y driniaeth, Ionawr 2021 ymlaen**

Ym mis Tachwedd 2022, roedd 168,657 o lwybrau cleifion yn aros am fwy na 53 wythnos (dros flwyddyn) i ddechrau triniaeth ar draws pob arbenigedd. **Mae hynny'n ostyngiad o 8 y cant** o gymharu â'r uchafswm o 183,450 o lwybrau cleifion a oedd yn aros am fwy na 53 wythnos ym mis Awst 2022.

Mae'r amcanestyniad sy'n defnyddio data ar gyfer y cyfnod rhwng mis Awst a mis Tachwedd yn dangos, ar y lefel bresennol o gynnydd (h.y. pe bai'r cynnydd yn parhau ar y lefel a welwyd ers mis Awst), **na fydd y targed adfer yn cael ei gyflawni tan fis Hydref 2025** (y targed adfer yw Gwanwyn 2025).

Ffigur 8: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am fwy na 53 wythnos i ddechrau triniaeth, yn ôl gweithrediad y driniaeth





Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl misoedd, wythnosau wedi'u grwpio a gweithrediad y driniaeth, Ionawr 2021 ymlaen

Ym mis Tachwedd 2022, roedd cyfanswm o 37,396 o lwybrau cleifion yn aros am fwy na 53 wythnos (dros flwyddyn) am driniaethau trawma ac orthopedig, roedd 27,542 yn aros am lawfeddygaeth gyffredinol a 24,297 yn aros am driniaethau offthalmoleg.

Roedd **gostyngiad amlwg** yn nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros am fwy na 53 wythnos i ddechrau triniaeth rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Tachwedd 2022 am driniaethau ar y glust, y trwyn a'r gwddf (3,402), trawma ac orthopedig (3,014) ac offthalmoleg (2,667). Fodd bynnag, **cynyddodd** nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros am fwy na 53 wythnos i ddechrau triniaeth  ym maes gastroenteroleg (532), niwroleg (351), orthodonteg (175) ac imiwnoleg glinigol ac alergedd (193) a mathau eraill o weithrediadau triniaeth.


Ffigur 9: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am fwy na 53 wythnos i ddechrau triniaeth (mynegai: 100 = Ionawr 2021) ac amcanestyniad yn seiliedig ar y data ar gyfer y cyfnod rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2022, yn ôl gweithrediad y driniaeth




Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl misoedd, wythnosau wedi'u grwpio a gweithrediad y driniaeth, Ionawr 2021 ymlaen

Targed 4 yn y cynllun adfer: Erbyn Gwanwyn 2024, cyflymu profion ac adroddiadau diagnostig i wyth wythnos ac i 14 wythnos ar gyfer ymyriadau therapi

Ffigur 10: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros wyth wythnos neu ragor am wasanaethau diagnostig ac am fwy na 14 wythnos am wasanaethau therapi




Ffynhonnell: StatsCymru, Amseroedd aros am wasanaethau diagnostig a therapi yn ôl mis

## Gwasanaethau diagnostig

Ar gyfer gwasanaethau diagnostig, megis endosgopi, delweddu, radioleg a chardioleg, gostyngodd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros i 111,672 ym mis Tachwedd 2022. Roedd 42,566 o lwybrau cleifion (38 y cant) yn aros am wyth wythnos neu ragor.

Mae data mis Tachwedd yn dangos mai endosgopi a niwroffisioleg sydd â'r ganran uchaf o lwybrau cleifion sy'n aros am fwy nag wyth wythnos. Mae gan endosgopi gyfanswm o 24,571 o lwybrau cleifion sy'n aros, sy'n cyfateb i 22 y cant o'r holl lwybrau diagnostig sy'n aros. Mae gan radioleg 64,509 o lwybrau cleifion sy'n aros (gan gyfuno'r ddau gategori radioleg), sy'n cyfateb i 58 y cant o'r holl lwybrau diagnostig sy'n aros.

Endosgopi diagnostig (canolrif 13.9 wythnos) a niwroffisioleg (canolrif 9.3 wythnos) oedd â'r amseroedd aros hwyaf ym mis Tachwedd 2022.


Gwasanaethau therapi

Roedd 9,584 o lwybrau cleifion pellach yn aros am fwy na 14 wythnos am wasanaethau therapi, fel awdioleg, ffisiotherapi, therapi galwedigaethol, podiatreg a lleferydd ac iaith ac ati.

Gostyngodd nifer y llwybrau cleifion sy'n aros i 65,321 ym mis Tachwedd ond mae'n parhau'n uchel yn ei chyd-destun hanesyddol. **Gostyngodd** y nifer sy'n aros am fwy na 14 wythnos (y targed o ran uchafswm y cyfnod aros) **i 9,584**, gan ddisgyn am yr wythfed mis yn olynol.

**Targed 5 yn y cynllun adfer: Erbyn 2026, rhoi diagnosis a thriniaeth canser o fewn 62 diwrnod i 80% o bobl**

Ffigur 11: Canran y bobl â diagnosis o ganser a oedd wedi dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod i'r pwynt y cafodd canser ei amau gyntaf.





Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybr amheuaeth o ganser (llwybrau sydd wedi eu cau): Nifer y llwybrau gofal ble y dechreuodd y claf gael triniaeth ddiffiniol gyntaf a'r rhai a gafodd wybod nad oes ganddynt ganser, yn ôl bwrdd iechyd lleol, lleoliad y tiwmor, grŵp oedran, rhyw, mesur a mis.

O'r cleifion a ddechreuodd eu triniaeth ddiffiniol gyntaf ym mis Tachwedd 2022, **dechreuodd 53.5 y cant (942 allan o 1,749) ohonynt eu triniaeth** o fewn 62 diwrnod i'r amheuaeth gyntaf o ganser. Mae hyn yn gynnydd o gymharu â'r ffigyrau ym mis Medi 2022 (53.3 y cant) a mis Hydref 2022 (52.2 y cant).

Mae ystadegau ar gael fesul lleoliad y tiwmor. Mae'r data ar gyfer mis Tachwedd 2022 yn dangos bod y canrannau isaf o bobl a ddechreuodd eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod yn dioddef o diwmorau **gynaecolegol, pen a gwddf ac wrolegol**.

**Ffigur 12: Canran y bobl a gafodd ddiagnosis o ganser ac a ddechreuodd eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod i'r amheuaeth gyntaf o ganser - lleoliad y tiwmor.**


Croen (77%)
Wrolegol (38%)
Y Fron (54%)
Gastroberfeddol Isaf (41%)
Ysgyfaint (64%)
Gastroberfeddol Uchaf (54%)
Hematolegol (ac eithrio Lewcemia Acíwt) (53%)
Gynawcolegol (30%)
Pen a gwddf (37%)
Arall (62%)
Ymennydd/System Nerfol Ganolog (88%)
Sarcoma (42%)
Lewcemia Acíwt (100%)
O fewn 62 diwrnod i'r amheuaeth gyntaf o ganser
Mwy na 62 diwrnod
0
100
200
300
Y ganran o fewn 62 diwrnod i'r amheuaeth gyntaf o ganser
Nifer y cleifion a ddechreuodd eu triniaeth ddiffiniol gyntaf yn ystod y mis